GIG

*Sefydliad Cenedlaethol*
*dros Ragoriaeth Glinigol*

# Llawdriniaeth ehangu'r sglera ar gyfer presbyopia

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Gorffennaf 2004

**Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 70**

**Llawdriniaeth ehangu'r sglera ar gyfer presbyopia**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Gorffennaf 2004

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0630. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0629. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0628.

**Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-697-6

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Gorffennaf 2004
Gosodwyd y Testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Gorffennaf 2004 . Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â llawdriniaeth ehangu'r | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 9 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn llawdriniaeth ehangu'r sglera ar gyfer presbyopia. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p'un a yw llawdriniaeth ehangu'r sglera yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio'n rheolaidd i drin presbyopia.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch llawdriniaeth ehangu'r sglera a pha mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cleifion a'r gofalwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar y dudalen olaf).

# Ynglŷn â gosod cornbilen brosthetig hydrogel

Presbyopia yw'r term meddygol ar gyfer problem sy'n ymwneud â'r llygad sy'n digwydd wrth i bobl heneiddio. Ni all y llygad ffocysu cystal ar bethau sy'n agos ato. Aiff hyn yn raddol waeth dros amser. Mae pobl sy'n dioddef o bresbyopia yn dechrau canfod bod yn rhaid iddynt ddal llyfrau neu bapurau newydd ymhellach oddi wrth eu llygaid er mwyn eu darllen, ac os byddant yn canolbwyntio ar rywbeth sy'n eithaf agos at eu llygaid, megis gwnïo neu ysgrifennu, byddant yn cael pen tost neu'n teimlo straen ar y llygad.

Fel rheol, gall pobl oresgyn effeithiau presbyopia gwisgo sbectol, er ei bod yn bosibl y bydd angen i'r person newid ei lensys wrth i'r cyflwr waethygu.

Mae llawdriniaeth ehangu'r sglera, sef y weithdrefn y mae NICE wedi edrych arni, yn cynnwys gwneud toriadau bach ym mhelen y llygad a rhoi bandiau bach iawn i mewn i'r llygad. Rhoddir y bandiau hyn yng ngwyn y llygad o dan y cyhyrau sy'n rheoli'r lens. Y gobaith yw y bydd y bandiau yn ymestyn yr ardal er mwyn i'r lens allu ffocysu'n gywir eto.

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Methodd NICE â dod o hyd i unrhyw astudiaethau o safon a edrychodd ar ba mor dda yr oedd llawdriniaeth ehangu'r sglera yn gweithio.

Mewn un astudiaeth, cafodd cleifion y llawdriniaeth ar un llygad, a chymharwyd golwg y llygad hwn â'r golwg yn y llygad arall yn achos pob person. Dangosodd canlyniadau'r astudiaeth hon, pan ddarllenwyd rhywbeth a oedd 20 cm i ffwrdd, y gallai pobl weld yn fwy clir gyda'r llygad a gafodd y llawdriniaeth. Ond pan ofynnwyd rhaid iddynt ddarllen rhywbeth a oedd 30 cm neu 40 cm i ffwrdd, nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y llygaid.

Mewn astudiaeth arall, gwelwyd gwelliant dros dro o ran y gallu i weld pethau o agos mewn tri o'r wyth llygad a gafodd y llawdriniaeth, ond ymhen blwyddyn, roedd y gwelliant hwn wedi diflannu. Yn yr un astudiaeth, gofynnodd tri pherson i gael tynnu'r bandiau allan gan nad oeddent yn cael unrhyw effaith ar eu golwg.

Edrychodd trydydd adroddiad ar yr hyn a ddigwyddodd i dri pherson. Yn yr achos hwn, ni wellodd golwg neb ar ôl y llawdriniaeth.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Credai'r arbenigwyr fod canlyniadau'r astudiaethau fwy na thebyg yn dangos nad oedd llawdriniaeth ehangu'r sglera yn gweithio'n dda. Dywedodd un o'r arbenigwyr fod y llawdriniaeth yn ddadleuol gan nad oedd yn seiliedig ar ddamcaniaeth gyffredinol o ran sut y mae'r llygad yn gweithio.

## Risgiau a phroblemau posibl

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn dwy enghraifft, roedd yn rhaid i'r cleifion gael tynnu'r bandiau allan oherwydd bod y bandiau naill ai wedi symud yn y llygad neu fod poen a chwyddo yn y llygad.

Mewn un astudiaeth, dioddefodd dau o wyth o bobl niwed i orchudd blaen eu llygaid. Mewn astudiaeth arall a oedd yn cynnwys 29 o bobl, dioddefodd un person bwysedd cynyddol o fewn pelen y llygad am gyfnod byr.

## Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Credai'r arbenigwyr mai'r prif broblemau tebygol fyddai:

- gwaedu o fewn pelen y llygad
- yr haen fewnol yng nghefn pelen y llygad (y retina) yn symud o'i safle arferol
- haint y tu mewn i'r llygad
- glawcoma (cyflwr lle y mae'r pwysedd y tu mewn i belen y llygad yn uchel)
- creithiau sy'n effeithio ar orchudd blaen y llygad
- teneuo yn haen wen wydn pelen y llygad (a elwir yn sglera).

## Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi argymell na ddylid defnyddio llawdriniaeth ehangu'r sglera. Y rheswm am hyn yw nad yw'n ymddangos fel pe bai llawdriniaeth ehangu'r sglera yn gweithio'n ddigon da, a bod pryderon ynglŷn â'i diogelwch.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Mae NICE wedi ystyried llawdriniaeth ehangu'r sglera am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd mawr am fanteision a risgiau llawdriniaeth ehangu'r sglera ar gyfer presbyopia. O ganlyniad, nid yw NICE yn argymell y dylai'r llawdriniaeth hon gael ei chynnal.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar lawdriniaeth ehangu'r sglera ar gyfer presbyopia ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG070guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0628. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am gyflyrau sy'n effeithio ar y llygaid, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da, ffoniwch 0845 4647, neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Gorffennaf 2004